# Datgan Parth dan Reolaeth (Monitro) Adar Caeth (Ffliw Adar)

Mae Prif Swyddog Milfeddygol Cymru wedi cadarnhau bod ffliw adar pathogenig iawn yn bresennol ar safle yng Nghymru yn unol ag erthygl 28(1) o Gorchymyn Ffliw Adar a Ffliw sy'n Deillio o Adar mewn Mamaliaid (Cymru) (Rhif 2) 2006[1] ("y Gorchymyn").

Yn unol ag erthyglau 28(1), 28(6), 29(4) a 33(1)(b) ac (d) ac ar ôl ystyried y meini prawf a nodir yn erthygl 29(5), mae Gweinidogion Cymru yn datgan bod yr ardal a ddisgrifir yn Atodiad 2 i'r Datganiad hwn yn barth rheoledig, y cyfeirir ato yn y Datganiad hwn fel yr Aderyn Caeth (Monitro) Parth Rheoledig lle mae'r mesurau yn Atodlen 4 (ac eithrio paragraffau 8,  9, 11 a 16 i 30). Yn rhinwedd erthygl 33(1)(b), ni ddatganir parth gwyliadwriaeth yn yr Aderyn Caeth (Monitro) Parth Rheoledig.

Mae'r Parth dan Reolaeth (Monitro) Adar Caeth wedi'i farcio ar y map yn Atodiad 2.

Mae'r mesurau hyn yn berthnasol o 21:00 ar 7 Tachwedd 2022 nes y caiff y Datganiad hwn ei ddirymu neu ei ddiwygio gan ddatganiad pellach.

Canolbwynt y Parth dan Reolaeth (Monitro) Adar Caeth yw'r cyfeirnod grid SO3838393627.

Llofnodwyd: Gavin Watkins, Prif Swyddog Milfeddygol Interim Cymru

Dyddiedig: yn 21:00 ar 7 Tachwedd 2022

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, un o Weinidogion Cymru.

*Gall peidio â chydymffurfio â'r Datganiad hwn fod yn drosedd o dan adran 72 neu 73 o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981.*

Atgynhyrchir atodlenni i'r Gorchymyn yn Atodiad 1 a 2 er mwyn cyfeirio atynt yn haws.

Mae copïau o'r Datganiad hwn a'r Gorchymyn ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru a thrwy Lywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

[1] OS 2006 / 2927 (Cy262) fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Ffliw Adar (Cymru) (Diwygio a Dirymu) 2022/280 (Cy.81).

**Atodiad 1**

**Parth dan Reolaeth (monitro) Adar Caeth**

Mae'r Parth dan Reolaeth (Monitro) Adar Caeth yn cynnwys y rhan honno o Gymru sydd o fewn y cylch glas â radiws o 3 cilomedr, â'i ganolbwynt yng nghyfeirnod grid SO3838393627. Daw'r cyfeirnod grid o'r Arolwg Ordnans [cyfres Landranger 1:35,000]. Y parth yw'r ardal o fewn y cylch glas ar y map a ddarperir yn Atodiad 2.

**Y Mesurau yn y Parth dan Reolaeth (Monitro) Adar Caeth**

**Cofnodi ymwelwyr**

**1.** Yn amodol ar baragraff 5, rhaid i feddiannydd unrhyw safle yn y parth lle cedwir dofednod neu adar caeth eraill gadw cofnodion o—

(a) enw a chyfeiriad unrhyw berson sy'n ymweld â'r safle (oni bai bod yr ymweliad i ran o'r safle yn unig lle mae pobl yn byw a lle na chedwir unrhyw ddofednod neu adar caeth eraill);
(b) dyddiad yr ymweliad;
(c) a yw'r person wedi cael unrhyw gysylltiad â dofednod neu adar caeth eraill ar y safle.

**Cofnodi dofednod**

**2.** Rhaid i feddiannydd unrhyw safle yn y parth wneud cofnod o'r holl ddofednod sy'n cyrraedd neu'n gadael y safle hwnnw cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ar ôl y symudiad.

**Cofnodi symudiadau dofednod ac wyau**

**3.** Yn amodol ar baragraff 5, mae'n rhaid i unrhyw berson sy'n ymwneud â chludo neu farchnata dofednod neu wyau dofednod yn y parth wneud cofnod cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol o'r holl ddofednod ac wyau dofednod y mae wedi'u cludo neu eu marchnata.

**Y symudiadau dofednod y mae angen eu cofnodi**

**4.** Rhaid i'r cofnodion y cyfeirir atynt ym mharagraffau 2 a 3 uchod gynnwys —

(a) swm a disgrifiad (yn cynnwys rhywogaethau'r dofednod neu fath o wy) a gludwyd neu a farchnatwyd;
(b) yn achos symudiad o safle yn y parth—
  (i) dyddiad y symudiad o'r safle;
  (ii) safle pen y daith (os yw'n hysbys);
  (iii) enw a chyfeiriad y person y mae perchnogaeth neu feddiannaeth yn cael ei throsglwyddo neu wedi'i throsglwyddo iddo;
(c) yn achos symudiad i safle yn y parth—

- (i) dyddiad y symudiad;
- (ii) safle y symudwyd ohono (os yw'n hysbys);
- (iii) enw a chyfeiriad y person sydd neu sydd wedi trosglwyddo perchnogaeth neu feddiannaeth;

(d) yn achos marchnata heb symudiad cysylltiedig, enw a chyfeiriad y person y trosglwyddwyd y feddiannaeth iddo a'r dyddiad;

**Hyd a lled y ddyletswydd i gadw cofnodion**

**5.** Nid yw paragraffau 1 a 3 yn berthnasol i'r canlynol—

(a) symud wyau'n uniongyrchol i safle manwerthu, ar neu o safle o'r fath neu'n dilyn symudiad o'r fath;

(b) symudiad pobl i sŵau, parciau bywyd gwyllt neu (oni bai ei fod yn ofynnol gan Weinidogion Cymru) unrhyw safle arall sy'n agored i'r cyhoedd, cyn belled nad oes gan y cyhoedd fynediad i unrhyw ardal lle mae adar yn cael eu cadw;

(c) symud y canlynol i safle lle mae dofednod neu adar caeth eraill yn cael eu cadw—

- (i) unrhyw berson ar hawl dramwy gyhoeddus neu sy'n defnyddio hawl dramwy i gael mynediad i'r safle;
- (ii) tresmaswyr;
- (iii) unrhyw berson sy'n gweithredu'r Gorchymyn hwn.

**Ynysu dofednod ac adar caeth eraill**

**6.** Mae'n rhaid i feddiannydd y safle yn y parth lle cedwir dofednod neu adar caeth eraill sicrhau eu bod—

(a) yn cael eu cadw dan do; neu

(b) wedi eu hynysu (os yw arolygydd milfeddygol yn gorchymyn hynny am nad yw eu cadw dan do yn ymarferol neu y byddai hynny'n cael effaith andwyol ar les yr adar i raddau sylweddol).

**Mesurau pan nad yw'r adar yn cael eu cadw dan do**

**7.** Os yw adar yn cael eu hynysu ond nid eu cadw dan do, rhaid i'r meddiannydd—

(a) sicrhau nad ydynt yn dod i gysylltiad â dofednod neu adar caeth eraill ar safle arall

(b) cymryd pob cam rhesymol i leihau eu cysylltiad ag adar gwyllt, yn unol â chyfarwyddiadau arolygydd milfeddygol.

**Mesurau bioddiogelwch**

**8.** Rhaid i'r meddiannydd ac unrhyw berson sy'n dod i'r safle yn y parth lle cedwir dofednod, neu adar caeth eraill neu wyau neu'n ei adael—

(a) gymryd mesurau bioddiogelwch fel y mae'n ystyried sydd eu hangen i leihau'r risg o ledaenu ffliw adar i neu o'r safle

(b) cydymffurfio ag unrhyw ofynion bioddiogelwch y mae arolygydd milfeddygol neu arolygydd o dan gyfarwyddyd arolygydd milfeddygol, drwy hysbysiad iddo, yn eu gosod.

**Crynoadau dofednod**

**9.** Ni chaiff unrhyw berson ganiatáu i ddofednod neu unrhyw adar caeth eraill gael eu casglu mewn unrhyw ffair, marchnad, sioe, arddangosfa neu grynhoad arall yn y parth.

**Rhyddhau adar hela**

**10.** Ni chaiff unrhyw berson ryddhau adar hela.

**Glanhau a diheintio cerbydau sy'n cludo unrhyw beth a allai fod wedi'i halogi**

**11.** Rhaid i unrhyw berson sy'n symud dofednod, adar caeth eraill, cig, porthiant, tail, slyri, sarn neu unrhyw beth arall a allai fod wedi'i halogi, lanhau a diheintio'r cerbyd ac unrhyw gyfarpar a ddefnyddiwyd i gludo'r peth hwnnw cyn gynted ag y bydd wedi'i ddadlwytho, yn unol ag erthygl 66 y Gorchymyn.

**Glanhau a diheintio cerbydau**

**12.** Mae'n rhaid i berson sy'n dod i safle yn y parth neu'n ei adael mewn cerbyd lanhau a diheintio unrhyw ran o'r cerbyd a allai fod wedi'i halogi yn ddi-oed, yn unol ag erthygl 66 y Gorchymyn.

## Atodiad 3

### Map yn dangos y Parth dan Reolaeth (Monitro) Adar Caeth ar gyfeirnod grid SO3838393627

Cyfeirnod grid yr Arolwg Ordnans yw hwn [cyfres Landranger 1:35,000].




eR

**Commented [GM(OADP1]:** Replace with location specific map provided by mapping team